

“Good support isn’t just about ‘services’ – it’s about having a life.”

## Rhwydwaith IMPACT - dod allan o ysbytai arhosiad hir Adolygiad Tystiolaeth

Fersiwn hawdd ei ddeall

### Beth yw'r mater?



Mae **nifer fawr** o bobl ag anableddau dysgu a phobl awtistig yn cael eu derbyn i'r ysbyty ac yn **aros yno am amser hir**.



Mae pobl yn **bryderus iawn** bod yr arosiadau hynny yn yr ysbyty am flynyddoedd lawer **heb unrhyw amser wedi'i gynllunio i'r unigolyn adael**.



Penderfynodd y DU **gau llochesi** i bobl ag anableddau dysgu o'r 1960au ymlaen.




Ond yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae mwy o bobl yn cael eu derbyn i leoedd a elwir yn **unedau asesu a**

“Good support isn’t just about ‘services’ – it’s about having a life.”

**thriniaeth.** Weithiau caiff hyn ei fyrhau i **ATUs.**



Mae rhai pobl yn aros yn yr unedau hyn am gyfnod **rhy hir o lawer.** Er gwaethaf eu henw, nid oes digon o asesiadau na thriniaethau yn cael eu darparu **na ellid eu gwneud yn rhywle arall.**



Mae pobl eraill yn byw mewn unedau diogel, **ysbytai iechyd meddwl,** neu mewn safle GIG ochr yn ochr â gwasanaethau eraill.



Rydym yn galw'r holl fathau hyn o leoedd yn **lleoliadau arhosiad hir.**



Fe ddylai'r lleoliadau arhosiad hir hyn gael **polisiau** i helpu pobl i adael yr ysbyty a **byw yn y gymuned.** Ond araf iawn yw'r cynnydd.



Mae tua **dwy fil** o bobl yn byw mewn lleoliadau arhosiad hir yn Lloegr ar **unrhyw adeg.**

“Good support isn’t just about ‘services’ – it’s about having a life.”



Cyfartaledd hyd arhosiad pobl yw tua **phum mlynedd a hanner**. Mae tua thri chant a hanner o bobl wedi bod yn yr ysbyty ers **mwy na deng mlynedd**.



**Nid oes neb yn meddwl bod hyn yn dderbyniol**. Ond mae datrys y materion hyn wedi bod yn **anodd iawn**.

## Sut mae'r darlun ledled y DU?



Yn **2022**, cynhaliwyd adolygiad o ymchwil flaenorol ynglŷn ag **oedi mewn gadael ysbytai arhosiad hir**.



Cafodd pum **adolygiad cenedlaethol a swyddogol** o bob rhan o'r DU eu cynnwys.

## Lloegr



Cynhaliwyd adolygiad o **neilltuaeth ac ataliaeth** mewn ysbytai ar gyfer pobl

“Good support isn’t just about ‘services’ – it’s about having a life.”

## ag anableddau dysgu gan y **Comisiwn Ansawdd Gofal**.



Pobl sy'n edrych ar wasanaethau iechyd a gofal yn Lloegr yw'r **Comisiwn Ansawdd Gofal**, sydd fel arfer yn cael ei ffrhau i **CQC**.



Edrychodd yr adolygiad hwn ar **brofiadau pobl o arosiadau hirdymor yn yr ysbyty**. Roedd yn cynnwys pethau fel;

- Gwahanu a neilltuaeth.
- Rhyddhau a chynllun pontio.
- Rhwystrau i bobl rhag symud ymlaen.



Un peth y gwnaeth yr adolygiad hwn ei ganfod oedd bod rhyddhau yn aml yn cael ei arafu oherwydd **diffyg gwasanaethau cymunedol**.


Digwyddodd hyn ar gyfer **60%** o'r bobl y siaradwyd â hwy.

“Good support isn’t just about ‘services’ – it’s about having a life.”

## Gogledd Iwerddon



Cynhaliwyd **adolygiad o gynnydd** ar gyfer rhaglen a oedd yn edrych ar helpu pobl sy'n wynebu **oedi cyn gadael yr ysbyty**.



Er y bu **rhywfaint o gynnydd**, mae llawer o bobl yn dal yn yr ysbyty, gyda **dim ond ychydig** wedi symud yn ôl i'r gymuned.



**Ychydig dros chwe blynedd** yw **cyfartaledd arhosiad** pobl ag anableddau dysgu yn eu hunedau ysbyty.



Mae'r cyfartaledd amser hwn yn cynnwys **arosiadau byr o ddyddiau neu wythnosau**, sy'n golygu bod yn rhaid bod rhai arosiadau ysbyty yn **hir iawn**.

## Yr Alban



Cynhaliwyd adolygiad o oedi wrth ryddhau o'r enw '**No Through Road**'.

“Good support isn’t just about ‘services’ – it’s about having a life.”



Edrychodd yr adolygiad hwn ar y **rhesymau** dros **oedi cyn rhyddhau** cleifion o wardiau anabledd dysgu ysbytai.



Un peth y gwnaeth yr adolygiad ei ganfod oedd bod bron i **un rhan o dair o’r cleifion mewnol presennol** sydd ag anabledd dysgu yn profi achosion o oedi mewn rhyddhau.



Comisiynwyd adolygiad arall o’r holl **leoliadau arhosiad hir a thu allan i ardal** gan Lywodraeth yr Alban.



Mae tu allan i ardal yn golygu bod rhywun mewn ysbyty yn rhywle sydd **ddim yn agos** i’w gartref/chartref neu gymuned. Mae rhai pobl mewn ysbytai **ymhell o gartref**.




Yn yr adroddiad, dangosodd rhai o’r canfyddiadau bod **13 o bobl** wedi dioddef oedi o dros flwyddyn cyn gadael yr ysbyty.

“Good support isn’t just about ‘services’ – it’s about having a life.”



Roedd gan 10 o bobl a oedd yn profi oedi leoliadau a oedd yn costio dros **£150,000 y flwyddyn.**



Dim ond 51% o bobl yn yr unedau hyn oedd â **chynlluniau rhyddhau gweithredol.**

## Cymru



Cynhaliwyd Adolygiad Gofal Cenedlaethol yng **Nghymru**. Roedd hyn yn ymwneud â **gofal a thriniaeth pobl** ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth.



Edrychodd yr adolygiad ar ba mor barod oedd pobl i **symud allan o ysbyty**. Edrychodd hefyd i weld a oedd ysbytai yn **diwallu eu hanghenion.**



**Cyfartaledd yr amser** yr oedd pobl yng Nghymru yn ei dreulio mewn ysbytai arhosiad hir oedd **ychydig dros bum mlynedd.**

“Good support isn’t just about ‘services’ – it’s about having a life.”



Canfu'r adolygiad hwn y gallai talp mawr o'r arian sy'n **cael ei wario ar arosiadau ysbyty** gael ei ddefnyddio **ar unwaith** ar wasanaethau cymunedol.



Gallai hyn ddigwydd pe bai pawb sy'n **profi oedi yn yr ysbyty** yn cael eu helpu yn ôl i'w cymuned.

## Pam fod hyn yn problem?



**Nid yw ysbytai wedi'u cynllunio i gefnogi** pobl i fyw bywyd arferol.



Hyd yn oed os oes angen ysbytai ar rai pobl ar gyfer cymorth brys, **nid ydynt yn addas ar gyfer arosiadau hir.**



Ychydig iawn o bobl fyddai **eisiau byw mewn ysbyty** pe gallent ddewis peidio.



“Good support isn’t just about ‘services’ – it’s about having a life.”



Mae pobl **yn aml y tu allan i’w hardal**, sy’n golygu eu bod yn bell oddi wrth eu teulu, ffrindiau a chymunedau lleol.



Bu llawer o **sgandalau am ofal gwael** mewn rhai unedau ysbytai. Roedd y rhain yn cynnwys straeon am gam-drin, esgeulustod, marwolaethau a phobl yn **colli eu hawliau**.



Efallai eich bod wedi gweld straeon fel hyn ar y newyddion. Enghraifft o un o’r straeon hyn yw’r sgandal yn ymwneud â **Whorlton Hall**.



Gall gwasanaethau ysbyty fod yn **ddrud iawn**. Gall hyn greu rhywbeth a elwir yn gylch diefflig.



Dyma pan fo arian yn cael ei ddefnyddio ar ofal ysbyty drud, sy’n golygu **llai o arian ar gyfer gwasanaethau cymunedol**. Heb y gwasanaethau hynny, mae hyd yn oed mwy o bobl yn cael eu **derbyn i ysbytai arhosiad hir**.

“Good support isn’t just about ‘services’ – it’s about having a life.”

## Beth ydym ni'n ei wybod yn barod?



Er syndod, ychydig o ymchwil sydd wedi'i wneud i pam mae pobl ag anableddau dysgu a phobl awtistig yn dioddef **oedi mewn lleoliadau arhosiad hir**.



Anaml iawn y mae ymchwilwyr yn y gorffennol wedi siarad yn uniongyrchol â phobl ag anableddau dysgu a phobl awtistig. **Nid ydynt chwaith wedi siarad â'u teuluoedd a staff rheng flaen**.



Fel cymuned, **ni ofynnwyd** i ni'n aml beth rydym ni'n ystyried yw'r prif rwystrau. Neu beth fyddai'n helpu mwy o bobl i **adael yr ysbyty**.



Mae rhai o'r atebion a roddir i **helpu pobl i adael yr ysbyty** yn wan iawn ac **nid oes ganddynt ddigon o fanylion**.



Er enghraifft, efallai y bydd rhywun yn dweud bod **angen mwy o wasanaethau cymunedol** arnom. Ond nid oes digon o drafod ynghylch faint o wasanaethau cymunedol sydd gennym yn barod, a **beth ellid ei wneud i'w gwella**.

“Good support isn’t just about ‘services’ – it’s about having a life.”



Rydym yn meddwl na fyddwn yn gwneud mwy o gynnydd nes ein bod yn **gwerthfawrogi profiad bywyd pobl**. Mae angen i ni weld profiadau pobl fel rhywbeth pwysig, a allai ein helpu i ddod o hyd i **ffyrdd gwell o wneud pethau**.



Mae ymchwil ddiweddar wedi bod yn ceisio dod o hyd i ffyrdd gwell o **gefnogi pobl i ddod allan o'r ysbyty**.



Gweithiodd y fîm hwn mewn tri safle i **ddeall profiad bywyd** pobl yn yr ysbyty a'u teuluoedd. Bu hefyd yn edrych ar brofiadau **staff iechyd a gofal cymdeithasol**.



Gwnaeth **ganllaw ar-lein am ddim** a **fideo hyfforddi**. Gwnaeth hefyd **fersiynau hygyrch** i bobl a'u teuluoedd.



Mae llawer o bobl ag **anableddau dysgu a'u teuluoedd** wedi dweud bod y fideos hyn yn dda.


“Good support isn’t just about ‘services’ – it’s about having a life.”

## Pam rydym yn sownd yn yr ysbyty

Mae'r canllaw, y fideo a fersiynau mwy hygyrch ar gael **am ddim** ar y tair gwefan ganlynol:



<https://www.birmingham.ac.uk/schools/social-policy/departments/social-work-social-care/research/why-are-we-stuck-in-hospital.aspx>



<https://changingourlives.org/our-work/research/>  
[www.scie.org.uk/integrated-care/interventions/transfers-of-care/stuck-in-hospital](http://www.scie.org.uk/integrated-care/interventions/transfers-of-care/stuck-in-hospital)



Bu'r fîm ymchwil hefyd yn gweithio gydag **oriel gelf**. Gofynnodd i artist greu darn gwreiddiol o gelf. Gwnaethpwyd hyn i helpu i **godu ymwybyddiaeth** y cyhoedd.



Cafodd sylw hefyd mewn **papurau newydd**, fel yr erthygl sydd i'w gweld yma:

[www.theguardian.com/society/2023/mar/14/thousands-learning-disabilities-trapped-long-stay-hospitals](http://www.theguardian.com/society/2023/mar/14/thousands-learning-disabilities-trapped-long-stay-hospitals)

“Good support isn’t just about ‘services’ – it’s about having a life.”



Er bod llawer o **staff iechyd a gofal cymdeithasol yn gwybod** am y materion hyn, roedd y cyhoedd **wedi synnu'n fawr** bod pethau fel y maent.

## Rhai materion gan gydlynwyr Rhwydwaith Lleol



Pobl sy'n helpu i lunio'r grŵp effaith yw **cydlynwyr Rhwydwaith Lleol**. Maent wedi dweud y byddai'n ddefnyddiol i ni wybod beth sy'n **anodd iddynt**.



Bydd **adroddiad llawn** yn cael ei gyhoeddi'n ddiweddarach eleni. Mae enghreifftiau yn cynnwys:



Roedd llawer o bobl yn yr astudiaeth wedi cael profiadau **trawmatig iawn**, naill ai fel **plant neu oedolion**, neu'r ddau.

“Good support isn’t just about ‘services’ – it’s about having a life.”



Mae pobl am weld ffocws ar rywbeth a elwir yn **ofal wedi'i lywio gan drawma**. Mae hyn yn golygu bod pobl yn cael **help i brosesu** yr hyn sydd wedi digwydd iddynt.



Mae llawer o deuluoedd wedi bod yn ceisio cymorth ers **nifer o flynyddoedd**. Roeddent yn aml yn teimlo nad oedd neb yn gwrandao nes bod argyfwng mawr yn digwydd, ac yna'r person yn cael ei **dderbyn i'r ysbyty**.



Mae pobl yn meddwl bod angen **gwell perthynas** rhwng ysbytai a gwasanaethau cymunedol. Mae hyn er mwyn iddynt allu cefnogi pobl yn well a dangos iddynt beth sydd **ar gael yn eu cymuned**.



Cafwyd llawer o ddadleuon anodd ynghylch **risg a chyfrifoldeb**. Mae pobl eisiau gweld ysbytai'n gwneud pethau nad sydd mewn polisiau pan fo hynny **er budd rhywun**.

“Good support isn’t just about ‘services’ – it’s about having a life.”



Mae llawer o bobl yn **poeni am labeli**. Pan fydd rhywbeth wedi'i gofnodi amdanoch mae'n **anodd iawn cael gwared arno**.

## Adnoddau eraill



Mae yna hefyd astudiaeth gyfredol sy'n edrych ar beth sy'n helpu pobl i barhau i **fyw'n annibynnol yn y gymuned** ar ôl iddynt ddod allan o'r ysbyty  
<https://fundingawards.nihr.ac.uk/award/PB-PG-1217-20032>



Mae casgliadau hon wedi'u cyhoeddi ar: <https://makingpositivemoves.org/>



Mae'r sefydliad seiliedig ar hawliau, **Changing Our Lives**, wedi cyhoeddi cyfres o lyfrau '**ysbyty i'r cartref**'.



Maent yn dangos beth sydd wedi gweithio i bobl sy'n dod allan o'r ysbyty a beth sy'n bosibl, er gwaethaf **unrhyw heriau**.

“Good support isn’t just about ‘services’ – it’s about having a life.”



Y wefan yw:

<https://changingourlives.org/category/stories/hospital-to-home/>.



Gallwn hefyd ddarparu **rhestr gyfeirio** ar gyfer ein ffynonellau, anfonwch neges neu e-bost os hoffech i hon gael ei hanfon atoch.

Dogfen wedi'i throsi i fersiwn Hawdd ei Ddeall gan Sheffield Voices, cyfieithwyd gan by The Translation People